# MADOCKS, WILLIAM ALEXANDER (1773 - 1828), dyneiddiwr, yn caru'r ddrama a'r celfyddydau



**Enw:** William Alexander Madocks
**Dyddiad geni:** 1773
**Dyddiad marw:** 1828
**Priod:** Eliza Anne Gwynne (née Hughes)
**Rhiant:** John Madocks
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** dyneiddiwr, yn caru'r ddrama a'r celfyddydau
**Maes gweithgaredd:** Celf a Phensaernïaeth; Diwydiant a Busnes; Hanes a Diwylliant; Dyngarwch
**Awdur:** David Thomas

Ganwyd 17 Mehefin 1773 (yn ôl N.L.W. MS. 10590), yn drydydd mab i John Madocks o Fron Iw, Sir Ddinbych (J. E. Griffith, *Pedigrees*, 315); aeth i Goleg Eglwys Grist yn Rhydychen (1790), ac yn 1794 etholwyd ef yn gymrawd o Goleg All Souls. Bu'n aelod seneddol Radicalaidd dros Boston, 1802-18, a Chippenham, 1820-6. Bu'n byw yn Nolmelynllyn, ger Dolgellau, a darllenodd yn *Tours* Thomas Pennant am gynllun Syr John Wynn o Wydir i gau'r Traeth Mawr, rhwng Aberglaslyn a'r môr.

Etifeddodd gyfoeth mawr ar ôl ei dad, ac yn 1798 prynodd stad Tanrallt, Penmorfa. Caeodd tua 1,000 acer o'r Traeth Mawr, ac adeiladodd Dremadog; cafodd ddeddf yn 1807 i adeiladu cob ar draws y Traeth i gau 3,000 acer yn chwaneg. Gwnaeth ffordd ar hyd-ddo i gysylltu Llundain a Phortinllaen; cawsai ddeddf yn 1806 i wneud Portinllaen yn borthladd, ond methodd gael ei wneud yn orsaf i'r llongau post i Ddulyn. Arfaethodd wneud ffordd ferrach i Lundain drwy Ddolgellau a'r Trallwng a Chaerwrangon. Yn 1821 cafodd ddeddf i wneud porthladd ymhen y cob, a dyna gychwyn Porthmadog. Ceisiodd gael ffordd haearn ar hyd y cob i gario llechi o Ffestiniog i Borthmadog, a chyflawnodd Samuel Holland ei fwriad yn 1831.

Ond aeth yn ôl yn y byd; bu raid iddo encilio i Ffrainc, a bu farw ym Mharis ar 29 Medi 1828 a chladdwyd ef ym Mharis. Yr oedd wedi priodi (1818) Eliza Anne, wyres i Joseph Harris o Drefeca, ac aeres Thomas Harris.

## Awdur

**David Thomas**, (1880 - 1967)

## Ffynonellau


Walter Davies, *General view of the agriculture and domestic economy of North Wales containing the counties of Anglesey, Caernarvon, Denbigh, Flint, Meirionydd, Montgomery. Drawn up and published by order of the Board of Agriculture and Internal Improvement*, 1813
*Oxford Dictionary of National Biography*

Edward Davies, *Hanes Porthmadog* (1913)

Archifau LlGC: 'NLW MS 10590C: The history of Traeth Mawr'

D. R. Hughes, *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, xxiii, 118-23

Elizabeth Beazley, *Madocks and the Wonder of Wales*

R. T. Jenkins, 'Etifeddion Harrisiaid Trefeca' yn *Yng nghysgod Trefeca: Ysgrifau ar hanes crefydd a chymdeithas yng Nghymru yn y ddeunawfed ganrif* (Caernarfon 1968)

## Darllen Pellach

Rebecca Williams, *Cerdd o fawl i W. A. Maddocks, Esqr. M. P., am y daioni a'r llesâd y mae yn ei wneud yn y Traeth Mawr a Thremadog* (Caernarfon 18--)

Coflein: The Cob; Traeth Mawr Embankment, Porthmadog

ODNB: Madocks, William Alexander (1773–1828)

Erthygl Wicipedia: William Alexander Madocks

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 50681255

Wikidata: Q8015031

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu